**4ydd CYFARFOD FFORWM RHYNGSENEDDOL Y PWYLLGORAU CYLLID**
**19eg Mawrth 2025**

Cyfarfu Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid (y Fforwm) am y pedwerydd tro ar 19eg Mawrth 2025 yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon.

Cadeiriwyd y cyfarfod i ddechrau gan Diane Forsythe MLA, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac yna gan Matthew O'Toole MLA, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a ymunodd yn ddiweddarach, gyda chefnogaeth Kenneth Gibson ASA, Cynullydd Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban a Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru.

Roedd cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynhaliwyd y sesiynau anffurfiol a ganlyn:

- Cyfarfod 15 munud ar-lein gyda'r Gwir Anrhydeddus Darren Jones AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys (CST)

- Cyfarfod â John O'Dowd, Gweinidog Cyllid Gweithredol Gogledd Iwerddon; a

- Cyfarfod gyda Syr Robert Chote, Cadeirydd Cyngor Cyllidol Gogledd Iwerddon.

Rhoddodd pob Pwyllgor ddiweddariadau ynglŷn â'u rhaglenni gwaith priodol a bu trafodaeth ynglŷn ag Adroddiad Gwaddol yn cwmpasu pedwar cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd hyd yma.

Cytunodd y Fforwm i anfon llythyr ar y cyd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn croesawu ei ymgysylltiad â'r Fforwm, er bo hynny am gyfnod cyfyngedig iawn a thrwy alwad fideo, ac yn adleisio ei awydd datganedig ef a Llywodraeth y DU i ailosod perthnasoedd a chydweithio'n agosach, a cheisio gweithredu o ran y materion canlynol:

- Bod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a/neu'r Canghellor yn ymateb yn ffafriol i wahoddiadau i roi tystiolaeth i'n priod Bwyllgorau, yn enwedig o ystyried y craffu cadarn y mae pwyllgorau cyllid yn ei gymhwyso i gyllidebau cyffredinol y Llywodraethau Datganoledig a'r ffaith bod ein cyllidebau mor ddibynnol ar weithredoedd y Trysorlys.

  Dylai'r ystyriaeth o wahoddiadau o'r fath adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn Nodyn Datganoli 12, o gofio bod ymgysylltu o'r fath yn arfer mewn sesiynau seneddol blaenorol; a

- Rhagor o ymgysylltiad â'r Trysorlys yn ehangach er mwyn caniatáu i'r Aelodau drafod dyrannu cyllidebau a chyllid arall i'r llywodraethau datganoledig, ynghyd â rhagor o wybodaeth a gwell gwybodaeth a rhagor o dryloywder ynghylch penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar Lywodraethau Datganoledig.

- Y bydd yr ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Bwyllgor Dethol y Trysorlys.

- Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu yn mynegi eu diolch i'r Gweinidog O'Dowd a Syr Robert Chote am eu cyfraniadau.

Rhannodd y tri Phwyllgor hefyd ddiweddariadau ynghylch eu rhaglenni gwaith priodol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar feysydd o ddiddordeb cyffredin y gellid eu harchwilio'n llawnach yn y dyfodol.

Cytunodd yr Aelodau y dylid defnyddio'r Fforwm fel cyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydweithio rhwng y Pwyllgorau, gyda chydnabyddiaeth fod y Pwyllgorau'n cael mwy o ddylanwad wrth weithredu gyda'i gilydd.

Cytunwyd y byddai Adroddiad Gwaddol yn tynnu sylw at waith y Fforwm hyd yma yn cael ei gynhyrchu i'w gymeradwyo gan y Pwyllgorau.

Cafwyd consensws wrth gymeradwyo gwaith y Fforwm a chytundeb y dylai'r gwaith hwn barhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn etholiadau Senedd yr Alban a Senedd Cymru yn 2026.

## Yn bresennol:

- Kenneth Gibson ASA, Cynullydd Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban
- Ross Greer ASA, Aelod o Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban
- Craig Hoy ASA, Aelod o Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban
- Liz Smith ASA, Aelod o Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban

- Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd
- Sam Rowlands AS, Aelod o Bwyllgor Cyllid y Senedd
- Rhianon Passmore, Aelod o Bwyllgor Cyllid y Senedd

- Matthew O'Toole MLA, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Diane Forsythe MLA, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Phillip Brett MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Eóin Tennyson MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Jemma Dolan MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Paul Frew MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Dr Steve Aiken OBE MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon
- Gerry Carroll MLA, Aelod o Bwyllgor Cyllid Gogledd Iwerddon